## Crist ar y Groes

Pwy yw hwn sydd yn poeni? – Iesu yw,
   Roes ei waed i'n golchi;
  Drwy boen fawr bu'n dihoeni,
  A'i boen oedd ein beiau ni.

Y cyfiawn uniawn yno – a fwriwyd
   I'w farwol groeshoelio;
  Gwanwyd eirf drwy ei gnawd o,
  A'i Dduwdod gad ei wawdio.

Ei Dduwdod oedd guddiedig; – dyn welwyd
   Dan hoelion, yn unig;
  Gwres y ddeddf dan y groes ddig –
  Gwaedodd y bendigedig!

Cofir angau cyfryngol – yr Iesu
   Drwy'r oes fawr dragwyddol;
  O'i frodyr niferiadol
  Ni bydd un mewn bedd yn ôl.

Dros fai nas haeddai, mae'n syn – ei weled
   Yn nwylaw Rhufeinddyn;
  A'i brofi gan wael bryfyn,
  A barnu Duw gerbron dyn.

***Robert ap Gwilym Ddu***